**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1389
Ein cyf MA/KSNWT/10619/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

26 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref ynglŷn â deiseb P-06-1389 – Cyflwyno terfyn cyflymder o 30mya ar y gefnffordd trwy bentrefi Eglwys-fach a Ffwrnais.

Rydym yn nodi'r risgiau penodol i gerddwyr yng nghymunedau Ffwrnais ac Eglwys Fach ar yr A487, a hefyd y pryder a fynegwyd gan y gymuned trwy gyfrwng y ddeiseb.

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru'r canllawiau Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru (SLSLiW), i adlewyrchu polisi cyfredol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflwyno terfynau cyflymder o 20mya, ac i wireddu'r uchelgais a amlinellir yn Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021.

Disgwylir i'r canllawiau gael eu cyhoeddi ddiwedd mis Tachwedd 2025. Ar ôl i'r ddogfen honno gael ei rhyddhau, bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati wedyn i adolygu'r terfynau cyflymder ar draws ein Rhwydwaith Cefnffyrdd. Tan hynny, nid ydym am newid unrhyw derfynau cyflymder unigol, er mwyn sicrhau cysondeb â'r canllawiau newydd.

Bydd y gymuned yn gwybod bod fy swyddogion wedi bod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu troedffordd i ddarparu ar gyfer cerddwyr sydd am symud ar hyd y gefnffordd. Fodd bynnag, mae hynny wedi profi'n anymarferol oherwydd cyfyngiadau'r safle, a byddai angen nifer o fannau croesi ar gyfer unrhyw ddarpariaeth i gerddwyr. Ni fyddai hynny'n foddhaol o ran rheoli'r risg.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion wrthi bellach yn ystyried opsiynau i reoli'r risg honno, a gallent gynnwys terfyn cyflymder is. Unwaith y penderfynir ar yr opsiwn a ffefrir, byddwn yn cysylltu â'r Cyngor Cymuned i'w drafod.

Yn gywir

**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru